## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2001/110/EC ynghylch mêl (OJ Rhif L 10, 12.1.2002, t 47). Maent yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Mêl (Cymru) 2003 (O.S. 2003/3044).

Mae'r Rheoliadau'n rheoleiddio defnyddio'r enwau: mêl (rheoliad 6), mêl blodau a mêl neithdar (rheoliad 7), mêl melwlith (rheoliad 8), mêl diliau (rheoliad 9), mêl talpiau a diliau wedi eu torri mewn mêl (rheoliad 10), mêl wedi ei ddraenio (rheoliad 11), mêl wedi ei echdynnu (rheoliad 12), mêl wedi ei wasgu (rheoliad 13), mêl wedi ei hidlo (rheoliad 14); mêl pobydd (rheoliad 15).

Mae rheoliad 16 ac Atodlen 1 yn rhagnodi meini prawf ynglŷn â chyfansoddiad y mae'n rhaid i'r cynhyrchion hyn gydymffurfio â hwy pan gânt eu gosod ar y farchnad fel mêl a phan gânt eu defnyddio fel mêl mewn cynnyrch a fwriedir ar gyfer ei fwyta gan bobl.

Mae rheoliad 17 yn cynnwys darpariaethau ychwanegol ynghylch labeli.

Mae rheoliad 18 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau bwyd i orfodi'r Rheoliadau.

Mae rheoliad 19 ac Atodlen 2 yn cymhwyso darpariaethau penodol yn Neddf Diogelwch Bwyd 1990 (1990 p. 16), gydag addasiadau. Mae hyn yn cynnwys cymhwyso (gydag addasiadau) adran 10(1), sy'n galluogi hysbysiad gwella i gael ei gyflwyno i fynnu y cydymffurfir â darpariaethau penodedig yn y Rheoliadau.

Mae'r darpariaethau, fel y'u cymhwysir, yn gwneud methiant i gydymffurfio â hysbysiad gwella yn drosedd.

Mae rheoliad 20 yn dirymu Rheoliadau Mêl (Cymru) 2003, Rheoliadau Mêl (Cymru) (Diwygio) 2005 (O.S. 2005/3052), Rheoliadau Mêl (Cymru) (Diwygio) 2008 (O.S. 2008/543) a darpariaethau penodedig yn Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 (O.S. 2014/2303) sy'n ymwneud â Rheoliadau Mêl (Cymru) 2003.

Mae rheoliad 21 ac Atodlen 3 yn diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014.

Mae rheoliad 22 yn gwneud darpariaeth drosiannol o ran bwyd sy'n cael ei osod ar y farchnad neu ei labelu cyn 3 Awst 2015, gan wahardd cyflwyno hysbysiad gwella ynglŷn â bwyd o'r fath pe bai wedi cydymffurfio â Rheoliadau Mêl (Cymru) 2003.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.